Cyngor Sir Caerfyrddin

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

# Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2025

Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2025'.

Ar y nawfed o Fehefin 2016 gwnaeth Cyngor Sir Gaerfyrddin ("y Cyngor") Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ("y Gorchymyn Gwreiddiol") fel y disgrifir yn yr atodlen gyntaf.

Daeth y Gorchymyn Gwreiddiol i rym ar 1 Gorffennaf 2016. Fe'i gwnaed am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd.

Ar 10 Mehefin 2019, gwnaeth y Cyngor orchymyn pellach a oedd yn ymestyn cyfnod y Gorchymyn Gwreiddiol am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2019 ymlaen.

Ar 9 Mai 2022, gwnaeth y Cyngor orchymyn pellach a oedd yn ymestyn cyfnod y Gorchymyn Gwreiddiol am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2022 ymlaen.

Mae'r Cyngor trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol dan adran 60 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014:

Estyniad

Bydd y Gorchymyn Gwreiddiol (fel y'i hestynnwyd yn 2019 a 2022) yn cael ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2025 ymlaen.

## Atodlen Gyntaf

(Y Gorchymyn Gwreiddiol)

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016

Dyddiedig y      o fis           2025

Rhoddwyd Sêl Gyffredin
Cyngor Sir Caerfyrddin
ar y ddogfen hon
ym mhresenoldeb:

____________________________

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil